Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

tai@sirddinbych.gov.uk
01824 706000




# Diweddariad Cymunedol

**Annwyl Breswylydd,** **Rhagfyr 2021**

**Llwyn Eirin – cartrefi newydd ar dir gerllaw Tan y Sgubor, Dinbych - diweddariad y gaeaf**

Mae 6 mis wedi pasio ers i ni ddechrau adeiladu 22 tŷ cyngor newydd ar gyfer rhent cymdeithasol ar dir gerllaw Tan y Sgubor, Dinbych. Mae ein prif gontractwr, Brenig Construction, yn gwneud cynnydd ar y safle felly hoffem rannu gyda chi beth sydd wedi bod yn digwydd yno a beth yw'r cynlluniau ar gyfer y misoedd nesaf.

**Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi:**

- Y tu mewn i'r cartrefi:
  - Gwneud cynnydd da iawn gyda'r gosodiadau cyntaf mewn wyth tŷ, y cynnwys gwaith trydanol, plymio a system chwistrellu.
  - Dechrau plastro.
  - Disgwyl bod wedi gosod y ceginau cyntaf a'r lloriau finyl erbyn y Nadolig.
- Y tu allan i'r cartrefi:
  - Dechrau toi.
  - Ffitio paneli PV ar y toeau.
  - Mae'r gwaith brics yn dod yn ei flaen yn dda, mae'r gwaith wedi'i gwblhau neu ei ddechrau ar 12 eiddo.
- Ymweld â disgyblion yn Ysgol Uwchradd Dinbych i siarad am yrfaoedd posibl ym maes adeiladu.

**Gwaith sydd ar y gweill dros y gaeaf:**
Dros y misoedd nesaf gallwch ddisgwyl gweld:

- Fframiau coed i gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Ionawr.
- Gorffen y gwaith mewnol.
- Bydd yr eiddo cyntaf wedi'i gwblhau ac yn barod i'w gymeradwyo'n derfynol.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, ewch i www.taisirddinbych.co.uk/LlwynEirin/ neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

- Facebook @TaiSirDdinbych neu @DenbighshireHousing
- Twitter @TaiSirDdinbych neu @DenbighshireHou

Os oes gennych unrhyw gwestiynau. cysylltwch â thîm Brenig ar 01492 514934.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus gyda'r prosiect hwn.